

DŴR CYMRU
WELSH WATERG W Y B O D A E T H
C W S M E R I A I D

Haearn a Manganîs

Mae presenoldeb haearn a manganîs mewn cyflenwadau dŵr yn gallu arwain at gwynion o 'ddŵr budr'. Mae Dŵr Cymru yn cydnabod fod cyflenwadau afliwiedig yn anfoddfaol a bydd yn gweithredu'n gyflym i ddatrys y fath broblemau pryd bynnag byddant yn codi. Fodd bynnag, yn aml mae haearn a manganîs yn deillio o ffynonellau cwbl naturiol ac yn wir maent yn elfennau hanfodol o'n diet.

Gwelir haearn a manganîs yn bresennol yn naturiol mewn llawer o ffynonellau dŵr yng Nghymru. Fel arfer, maent yn gysylltiedig â dŵr a gymrir o afonydd a chronfeydd ar dir uchel, ond gwelir nhw hefyd mewn dyfroedd ar dir isel. Gellir gwaredu'r haearn a manganîs yma wrth ddilyn prosesau gofalus yn ein gweithfeydd trin dŵr. Mae'r mwyafrif o weithfeydd trin dŵr y cwmni eisoes yn trin dŵr fel hyn yn foddhaol, ond os digwydd i'r lefelau godi'n uwch na'r safonau cyfreithiol, cymrir camau i ail-drin y dŵr yn dod allan o'n gweithfeydd.

Gall haearn hefyd ddeillio o ffynonellau eraill mewn dŵr yfed. Er enghraifft, defnyddir cyfansoddion haearn mewn gweithfeydd trin dŵr er mwyn gwaredu amhureddau ac maent yn helpu i ostwng lefelau lliw, cymyledd a bacteria mewn dŵr cyn y prosesau trin a diheintio olaf. Rheolir y prosesau hyn yn ofalus ond ar adegau mae lefelau'n gallu codi'n uwch na'r safonau cymeradwyedig. Er enghraifft, gall rhywfaint o haearn a ychwanegir yn ystod y driniaeth barhau yn y dŵr wedi hynny ac er mwyn cadw'r lefelau'n sylweddol is na'r safon o 200 microgram per litr, mae Dŵr Cymru wedi gosod offer i wella a rheoli'r prosesau hyn yn otomatig.

Bydd haearn hefyd yn cyrraedd cyflenwadau dŵr yn dilyn cysylltiad uniongyrchol â hen bibellau haearn. Yn y gorffennol cynhyrchwyd pibellau o haearn bwrw/galfanedig; rhoddyd leinin mewn rhai er mwyn rhwystro'r haearn rhag dod i gysylltiad â'r dŵr, ond nid oeddent yn effeithiol iawn. Bydd pibellau modern ond yn cynnwys haearn pan fo angen rhai cryf iawn, er enghraifft ger heolydd mawr, a bryd hynny gosodir leinin llawer cryfach nag yn y gorffennol.



DŴR CYMRU
WELSH WATER

G W Y B O D A E T H C W S M E R I A I D

Mae haearn a manganîs yn tueddu i grynhoi mewn pibellau, a gallant liwio'r dŵr yn dilyn newid mewn cyflymder neu gyfeiriad y llif dŵr o fewn ein pibellau. Gall hynny ddigwydd pan fydd pibell fawr yn rhwygo, neu adeg galw mawr am ddŵr mewn ardal. Gwelir yr haearn a manganîs fel gronynnau oren, brown neu ddu yn y dŵr ond byddant fel arfer yn setlo mewn amser. Mewn achosion difrifol gallant staenio sinciau a londri, a gwneud y dŵr flasu'n chwerw.

Ni chredir fod un o'r elfennau hyn yn peryglu iechyd pobl ar y lefelau a welir fel arfer, hyd yn oed pan fydd dŵr yfed wedi'i afliwio'n ddifrifol. Mae terfynau haearn a manganîs y WHO (World Health Organisation) yn adlewyrchu'r posibilrwydd o staenio a niwsans, nid unrhyw botensial beryglon iechyd. Mae rheoliadau ansawdd dŵr y Deyrnas Unedig hyd yn oed yn is na hynny er mwyn bodloni cwsmeriaid. Y terfynau cyfredol yw 200 microgram per litr yn achos haearn, manganîs 50 microgram per litr.

Os yn wynebu problemau cyfarfod â safonau ansawdd dŵr o dapiau cwsmeriaid, neu pan fydd cwsmeriaid yn pryderu, bydd Dŵr Cymru yn cymryd camau addas i wella ansawdd ei gyflenwadau. Yn achos elfennau megis haearn a manganîs, gall gymryd yn hirach i ddyfeisio atebion parhaol, yn arbennig pan fydd angen adnewyddu llawer o bibellau ar rwydwaith y cwmni. Mae rhwydwaith Dŵr Cymru yn cynnwys oddeutu 25,000 cilometr o bibellau a bydd yn cynnal ac adnewyddu'r system yn barhaus er mwyn gwella safon y dŵr a gyflenwir i gwsmeriaid. Rhwng 1995 a 2000, adnewyddwyd 1900 cilometr o bibellau haearn bwrw ac mae'r rhaglen yn parhau, er mwyn adnewyddu 4500 cilometr pellach erbyn 2010. Targedir y gwaith yn yr ardaloedd hynny sydd fwyaf tebygol o gael dŵr o safonau is na'r rhai cymeradwyedig. Bydd y cwmni hefyd yn glanhau pibellau ardaloedd eraill yn rheolaidd ac yn cynnal ymchwiliadau pellach os bydd angen. Er bod Dŵr Cymru yn derbyn y gellir cael dŵr afliwiedig yn dilyn problemau gweithredu, megis torri pibellau, fel arfer bydd ond yn parhau am gyfnod byr. Bydd y cwmni'n trafod problemau mwy hir dymor fel rhan o'i raglen gyffredinol i wella'r rhwydwaith.

Os bydd angen gwybodaeth bellach galwch ni ar 0800 052 0130.